**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 6 Ionawr 2016.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad sain o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ann Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Raymond Jones, Jeffrey M.Evans a Nicola Roberts |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies a Richard Owain Jones |
| **Hefyd yn bresennol:** | Y Cynghorydd R.A. Dew – Aelod Portffolio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br><br>Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr T.Ll. Hughes a D.R. Thomas (cais 12.2); y Cynghorwyr R. Meirion Jones a A.W. Mummery (cais 12.5); Y Cynghorydd Aled M. Jones (cais 12.7).<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, G.O. Jones, Alwyn Rowlands. |

1.00 o'r gloch - 3.00 o'r gloch

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2015, a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd K. P. Hughes yn rhestr yr aelodau a oedd yn bresennol yn yr Ymweliadau Safle ynghyd â chynnwys enw'r Cynghorydd Alwyn Rowlands yn rhestr yr aelodau lleol a oedd yn bresennol yn yr ymweliad safle â 1 Hampton Way, Llanfaes, Biwmares. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **6.1 42C127B/RUR – Cais llawn i godi annedd amaethyddol ynghyd â gosod system trin carthffosiaeth breifat ar dir yn Fferm Tŷ Fry, Rhoscefnhir.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.2 44C250A – Cais amlinellol i godi annedd gan gynnwys manylion llawn am addasu'r fynedfa amaethyddol bresennol ar dir gyferbyn â'r Tai Cyngor, Four Crosses, Rhosgoch**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais oherwydd y bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ym mis Chwefror.**<br><br>**6.3 45LPA605A/CC – Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar gyfer codi 17 annedd newydd, dymchwel y bloc toiled presennol ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Dwyryd, Niwbwrch**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 12C463/ENF – Cais ôl-weithredol i gadw stabl/storfa gardd ynghyd ag estyniad i'r cwrtil yn 1 Hampton Way, Llanfaes, Biwmares**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**7.2 40C58L/RE – Cais llawn i osod rhesi ffotofoltaidd 100Kw ar dir ym Mharc Carafannau Tyddyn Isaf, Dulas.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **10.1 40C154A - Cais amlinellol i godi 5 annedd a chreu mynedfa newydd i gerbydau yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa a'r gosodiad ar dir ger Stad Nant Bychan, Moelfre**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**10.2 42C237D/VAR – Cais dan Adran 73 i amrywio amod (07) (yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio 42C237 i alluogi newid i osodiad y safle ym Mhlas Tirion, Helens Crescent, Pentraeth**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR AC AELODAU** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 10C118F/RE – cais llawn i osod fferm arae solar 2.5MW ar dir ger Tyn Dryfol, Soar.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.2 19C1038F – Cais llawn i godi annedd ynghyd â** |

| | |
|---|---|
| | **chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Ffordd Ty'n Pwll, Caergybi**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.3 25C227C/RE – Cais llawn i godi dau dyrbin gwynt 15kW gydag uchder hwb o hyd at uchafswm o 15m, diamedr y rotor o hyd at 9.8m, ac uchafswm uchder fertigol at frig y llafn o hyd at 19.9m ar dir yn Cwyrt, Llannerch-y-medd.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.4 25C254 – Cais llawn i newid defnydd tir o ran o gae chwarae'r ysgol i randiroedd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar y tir tu cefn i Ysgol Gynradd Llannerch-y-medd**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.5 31C431 – Cais llawn i newd defnydd yr adeilad presennol o annedd breswyl i feithrinfa yn Borthwen, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.6 36C344 – Cais amlinellol i godi annedd, yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa i gerbydau ynghyd ag ail-leoli'r fynedfa i'r cae ar dir ger Ysgol Gynradd Henblas, Llangristiolus**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.7 44C320 – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir ger Gorslwyd Fawr, Rhosybol**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd bod y Pwyllgor yn credu bod y cynnig yn cydymffurfio gyda gofynion Polis 50. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cafodd y cais ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf i roi cyfle i'r Swyddogion baratoi adroddiad yng nghyswllt y rhesymau a roddwyd am ganiatáu'r cais.** |